**COFNODION O GYFARFOD ARBENNIG O GYNGOR CYMUNED LLANRUG A GYNHALIWYD 25 o FAWRTH 2024, YN Y SEFYDLIAD COFFA, LLANRUG AM 7:00YH**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Avril Jones, Hefin Jones, Philip Roberts, Gwynedd Williams, Berwyn Parry Jones, Beca Brown

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Meirwen Lloyd, Rhys Parry

**Hefyd yn bresennol:**

Mr Bleddyn Jones, Cynrychiolydd Cyfundeb y Methodistiaid

Mr Gwyndaf Hughes (Sefydliad Coffa)

Mr Dafydd Whiteside Thomas (Sefydliad Coffa)

Mr Goronwy Hughes (Sefydliad Coffa)

Mrs Eryl Roberts

Mrs Anwen Owen

**Clerc:** Meirion Jones

**1288 I dderbyn croeso gan y Cadeirydd**

Fe gadeiriwyd y cyfarfod gan Mr Gwyndaf Hughes

**1289 . Derbyn ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd yr ymddiheuriadau fel a nodwyd uchod

**1290. Datgan buddiant personol.**

Rhain i'w datgan fel yn briodol

**1291. I gyfarfod aelodau o Bwyllgor Rheoli y Sefydliad Coffa, Llanrug a Mr Bleddyn Jones, cynrychiolydd Cyfundeb y Methodistiaid parthed tir sydd yn eiddo iddynt ger Lon Groes, Llanrug ac i ystyried unrhyw gamau priodol a .neu gynlluniau arfaethedig**

Ymhelaethodd Mr Dafydd Whiteside Thomas ar bwrpas y cyfarfod ac eglurodd ychydig o gefndir.

Adroddwyd fod llythyr wedi ei anfon at Bennaeth Eiddo Cyfundeb y Methodistiaid yng Nghaerdydd parthed tir sy'n eiddo iddynt ar ochr y Lôn Groes, Llanrug. Roedd Mr Thomas wedi derbyn ymateb ar lafar gan

Swyddogion Capel y Rhys, fod y gyfundrefn wedi rhoi caniatâd i werthu'r tir ac eu bod yn y broses o'r brisio.

Bu i Bwyllgor Y Sefydliad gyfarfod a'r penderfyniad oedd i ofyn os buasai'r cyngor Cymuned yn trefnu cyfarfod gyda'r Gyfundrefn a Swyddogion Y Sefydliad oherwydd y teimlad oedd y byddai'r llain tir yma o fudd i'r gymuned leol.

Adroddwyd fod problemau parcio yn y Sefydliad yn enwedig pan mae gweithgareddau fel Merched y Wawr, Clwb Ieuenctid (rhieni yn dod i nol eu plant), clwb snwcer ayyb a byddai'r Sefydliad yn hoffi darn o dir ar gyfer creu llecynnau parcio.

Dywedodd llefarydd ar ran Y Gyfundrefn fod y tir wedi ei brisio am £30k (tir amaethyddol) yn ôl y Prisiwr Dosbarth, (ond roedd peth ansicrwydd pwy yn union sydd wedi rhoi y gwerth yma ar y tir). Adroddwyd buasai yn rhaid i'r Gyfundrefn sicrhau y pris gorau am y tir yn unol a rheolau y Comisiwn Elusennol. Ychwanegodd y cynrychiolydd y Gyfundrefn fod diddordeb wedi ei ddangos yn y tir gan ddatblygwr.

Adroddwyd gan gynrychiolydd y Gyfundrefn fod Cyngor Gwynedd a diddordeb mewn rhan o'r tir ond pan ofynnwyd am fwy o fanylion gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones fe wrthododd y cynrychiolydd a datgelu mwy.

**Penderfynwyd:** Bydd angen i'r cyngor cymuned ystyried yn y lle cyntaf, os y byddai yn datgan diddordeb yn y tir, ac fod unrhyw benderfyniad ar hyn o bryd heb unrhyw fath o oblygiadau nac ymrwymiad pellach.

Bydd yn eitem ar agenda cyfarfod o'r cyngor llawn ar 16 o Ebrill 2024